



Ôl troed carbon

Wrth i goed dyfu, maen nhw'n amsugno carbon deuocsid ac yn storio carbon yn eu boncyffiau, eu gwreiddiau a'u dail. Allwch chi ddod o hyd i goeden sydd wedi amsugno'r un faint o garbon ag yr ydych chi wedi ei allyrru mewn blwyddyn?

Cam 1

- Defnyddiwch y tabl isod i gyfrifo eich allyriadau carbon am un flwyddyn, gan ddefnyddio'r cardiau adnoddau i lenwi'r gwerthoedd sydd ar goll yn y golofn wyrdd isod.
- Dilynwch yr enghraifft i gwblhau gweddill y tabl er mwyn cyfrifo eich allyriadau carbon am un flwyddyn.

Gweithgaredd	Carbon a allyrrwyd gan bob gweithgaredd (g)	Sawl gwaith ar ddiwrnod arferol?	Allyriadau carbon y diwrnod (g)
ENGHRAIFFT Teledu, yr awr	25	3	25 x 3 = 75
Teledu, yr awr			
Goleuadau mewn 1 ystafell, yr awr			
Cyfrifiadur / gliniadur, yr awr			
Radio, yr awr			
Consol Gemau (e.e. Xbox360), yr awr			
Sychwr gwallt, am 10 munud			
Siwrnai car am 1 filltir			
Ffwrn / Popty trydan am 15 munud			
Berwi'r tegell unwaith			
Crasu 2 sleisen o dost			
Defnyddio popty microdon am 1 funud			
1 tro yn y peiriant golchi llestri			
Peiriant golchi ar 40 gradd	1 pentwr o ddillad		118
Peiriant sychu dillad	1 tro yr wythnos		74
Rhedeg oergell / rhewgell	Ymlaen 24 awr y dydd		500
CYFANSWM allyriadau carbon am 1 diwrnod			g
Troschwch y gramau (g) yn gilogramau (kg) trwy rannu gyda 1000			kg
x 365 diwrnod i gyfrifo CYFANSWM allyriadau carbon neu ôl troed carbon am 1 flwyddyn			kg



Cam 2

- Unwaith eich bod yn gwybod eich allyriadau carbon am y flwyddyn, defnyddiwch y graff a ddarparwyd i amcangyfrif maint y goeden fyddai ei hangen i storio'r swm yma o garbon.
- Chwiliwch am gyfanswm eich carbon i'w storio mewn cilogramau ar hyd yr echelin 'x' a thynnu llinell syth i fyny at y llinell wyrdd. Darllenwch ar draws at yr echelin 'y' i ganfod cylchedd y goeden yr ydych yn chwilio amdani.
- Mesurwch wahanol goed tua lefel uchder y frest (1.3 metr i fyny o'r llawr) tan ichi ddod o hyd i un gyda chylchedd tebyg.

Cylchedd y goeden sy'n cyfateb i fy allyriadau carbon blynyddol	cm
--	-----------

Cam 3

- Gweithiwch allan pa mor hir mae wedi ei gymryd i'ch coeden benodol chi amsugno eich allyriadau carbon blynyddol, h.y. oedran y goeden.
- Mae gan wahanol fathau o goed wahanol gyfradd twf; mae coed conwydd yn tyfu'n gyflymach na choed llydanddail. Ydy eich coeden chi'n goeden gonwydd neu'n goeden lydanddail?


Coeden lydanddail neu goeden gonwydd?	
I gyfrifo oedran coeden, rhannwch y cylchedd (cm) gyda'r gyfradd twf (cm/blwyddyn) <ul style="list-style-type: none"> • Rhannwch gyda 3 ar gyfer coeden gonwydd • Rhannwch gyda 2 ar gyfer coeden lydanddail 	Mlwydd oed

Nawr, rydych yn gwybod y gall coeden sy'n mlwydd oed amsugno eich allyriadau carbon blynyddol.

Dychmygwch sawl coeden fydd ei hangen i amsugno eich allyriadau carbon dros hyd eich oes.

Beth allwch chi ei wneud i leihau eich ôl troed carbon?

Rwyf am leihau fy ôl troed carbon trwy:



Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:

[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

0300 065 3000